

Newyddlen Gwasanaethau Anabledd

Llawr Gwaelod Isaf, Neuadd Rathbone, Ffordd y
Coleg, Bangor.

Ffôn: 01248 383620 / 382032

E-bost: gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

Mai 2018 - Rhifyn 48

Achrediad wedi ei roi i Ddarparwr Cymorth ac eithrio Cymorth Meddygol i Gwasanaethau Anabledd

Mae'r Gwasanaethau Anabledd yn falch o gyhoeddi ein bod wedi llwyr ddiwallu gofynion Fframwaith Sicrwydd Ansawdd Lwfansau Myfyrwyr Anabl am yr ail flwyddyn yn olynol.

Mae hyn yn golygu ein bod yn Ddarparwr Achrededig DSA Cymorth Anfeddygol ar gyfer Sgiliau Astudio Arbenigol (SpLD) a Sgiliau Astudio Arbenigol (AS).



Yn y rhifyn hwn

Achrediad wedi ei roi i Ddarparwr Cymorth ac eithrio Cymorth Meddygol i Gwasanaethau Anabledd	1
Yn y rhifyn hwn.....	2
Tîm Dyslecsia Cefnogaeth Arbenigol gyda Sgiliau Astudio	4
Iechyd Meddwl.....	5
Y Gwasanaeth Cyngori Myfyrwyr - Beth sydd ar gael?	6
7 o awgrymiadau ar gyfer ymdopi â straen arholiadau	6
Yn brin o arian?	7
Cyllid Myfyrwyr 2018/19	7
Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Myfyrwyr	9
Gwasanaeth y Llyfrgell a'r Archifau.....	9
Swyddfa Tai Myfyrwyr	10
Seremoni'r Arweinwyr Cyfoed.....	11
Nicola Brown - Fy Siwrnai.....	12
Cofiwch gymeradwyo taflen amser eich gweithiwr cynnal.....	13
Canolfan Asesu Bangor	13
A fyddwch chi'n astudio y flwyddyn nesaf a heb wneud cais am LMA? Gallwn ni helpu!	13
Graddio Gorffennaf 2018	14
Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd.....	16
Ap Bysiau Arriva	19
'Rough Guide to Accessible Britain' ar ei newydd wedd.....	20
Ein Manylion Cyswllt	22

CEFNOGAETH SGILIAU ASTUDIO ARBENIGOL UN-I-UN

Ar gyfer myfyrwyr gyda Gwahaniaethau Dysgu Penodol.

Darperir y gefnogaeth drwy'r flwyddyn, gan diwtoriaid cymwys a chofrestredig sy'n rhan o'r Tîm Dyslecsia mewnol yn y Gwasanaethau Anabledd ym Mhrifysgol Bangor.

Bydd staff croesawus yno bob tro byddwch yn ymweld â'n Derbynfa.



Ystafelloedd unigol un-i-un penodol sy'n darparu lle cyfforddus a chyfrinachol. Mae gan bob ystafell ddwy sgrin gyfrifiadurol, gliniadur (*laptop*) a mynediad at dechnoleg gynorthwyol, digon o le ar ddesg, golau y gellir ei newid er mwyn gwneud yr ystafell yn oleuach neu'n dywyllach, amrywiaeth o gymhorthion dysgu aml-synhwraidd, bwrdd gwyn, ac mae dŵr yfed wedi'i hidlo ar gael gerllaw.

Ystafell aros gyfforddus lle gall myfyrwyr eistedd ar ôl cyrraedd, ac edrych drwy amrywiaeth o daflenni gwaith strategaethau astudio ac adnoddau eraill sy'n cael eu harddangos. Mae'r adnoddau hyn ar gael i fyfyrwyr fynd â nhw gyda nhw fel bo'r angen.



Mae gan diwtoriaid sgiliau i gefnogi myfyrwyr i ymgorffori'r defnydd o dechnoleg gynorthwyol yn ystod eu hastudiaethau.

Yn y llun hwn, mae Dylan yn dangos sut i ddefnyddio'r Pen LiveScribe.

Tîm Dyslecsia Cefnogaeth Arbenigol gyda Sgiliau Astudio

Mae cefnogaeth sgiliau astudio arbenigol yn cynnig cyfle i chi weithio un-i-un gyda thiwtor sgiliau astudio i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i astudio'n effeithiol.

- Mae gennym diwtoriaid sgiliau astudio arbenigol sy'n arbenigo mewn cynnig cefnogaeth gyda mathemateg, ystadegau a'r Gymraeg.
- Gall eich tiwtor sgiliau astudio eich helpu i werthuso eich cryfderau a'ch dulliau astudio presennol a'ch cefnogi mewn meysydd a all fod yn fwy o her i chi. Byddant yn cyflwyno amrywiaeth o strategaethau i chi i wella eich dysgu, megis:
 - **Sgiliau Rheoli Amser a Threfnu**
 - **Rhifedd:**
 - Cymorth gydag iaith fathemategol.
 - Deall pynciau ariannol a chysyniadau ystadegol.
 - Defnyddio cymhorthion cyfrifiannu, rhaglenni TG a chyfrifianellau.
 - **Sgiliau Darllen Ymchwil ac Academaidd:**
 - Technegau darllen yn effeithlon.
 - Strategaethau ar gyfer dewis gwybodaeth.
 - Technegau crynhoi, gwneud nodiadau a chymryd nodiadau.
 - Defnyddio'r llyfrgell yn effeithiol.
 - **Sgiliau ysgrifennu:**
 - Trefnu a saernio eich syniadau.
 - Saernio dadleuon a mynegi syniadau.
 - Sgiliau sillafu, gramadeg ac atalnodi.
 - Saernio brawddegau a pharagraffau, aralleirio.
 - Sgiliau golygu a phrawf-ddarllen.
 - **Sgiliau cyflwyno.**
 - **Strategaethau adolygu:**
 - Strategaethau dysgu ar gof.
 - Technegau arholiadau.

Cysylltwch â ✉ 121dyslecsia@bangor.ac.uk os hoffech archebu sesiwn.

Iechyd Meddwl

Mae Cheryl Parkinson a Fiona Rickard, Ymgynghorwyr Iechyd Meddwl Prifysgol Bangor, wedi ymuno ag Undeb y Myfyrwyr Bangor i gynnig nifer o sesiynau galw i mewn i fyfyrwyr. Y newydd da yw ein bod, fel rhan o'n partneriaeth, wedi cael ystafell o faint da yn union wrth ymyl y Dderbynfa. Mae'r ystafell yn hawdd mynd iddi ac yn rhoi preifatrwydd.

Sesiynau Galw Heibio ar gyngor Iechyd Meddwl

- **Lle:** Pontio, Undeb Myfyrwyr, Lefel 4
- **Pryd:** Dydd Mercher 2yh-4yh dechrau
18 Ebrill - 30 Mai 2018



Gallai hyn fod yn addas i chi ...

Os ydych yn pryderu am eich iechyd meddwl.

Os hoffech gael sgwrs gyda Chynghorydd Iechyd Meddwl i drafod eich pryderon?

Os ydych chi eisiau gwybod am y gefnogaeth sydd ar gael?

Os ydych chi'n teimlo'n fwyfwy pryderus ac yn poeni am hynny?

Os ydych yn colli cwsg oherwydd eich pryder?

Os ydych o dan straen oherwydd arholiadau neu oherwydd eich astudiaethau?

Os ydych yn poeni am ffrind neu am rywun sy'n rhannu tŷ gyda chi?

Os ydych chi yn syml lawn eisiau ychydig o amser i gael eich cefn atoch?

Os ydych wedi ateb "Ie" i unrhyw un o'r uchod, croeso i chi alw heibio.

Y Gwasanaeth Cyngori Myfyrwyr - Beth sydd ar gael?

- Gweithdai Magi Gwytnwch ar gael drwy gydol y flwyddyn academiaidd, yn delio â straen, hwyliau a phryder isel;
- Gweithdai MiFedai ar gael i helpu gyda materion fwy penodol i fywyd myfyriwr;
- Ymwybyddiath Ofalgar—sesiynau galw mewn ar gael bob prynhawn dydd Mercher am 4.00yh yn Ystafell Cyfarfod yr Anecs, Neuadd Rathbone, Ffordd y Coleg;
- Therapi Grŵp ar gael drwy gais neu gyfeiriad;
- Sesiynau unigol ar gael hefyd drwy gysylltu â'r gwasanaeth.

Gwybodaeth pellach ar gael:

<https://www.bangor.ac.uk/student-services/counselling/index.php.cy>

neu dros ffon ☎ 01248 388520 neu drwy ✉ i cyngori@bangor.ac.uk



7 o awgrymiadau ar gyfer ymdopi â straen arholiadau

Mae eraill wedi bod trwy'r felin o'r blaen. Dyma 7 o awgrymiadau ar gyfer ymdopi â straen arholiadau gan gyd fyfyriwr.

1. Dim alcohol, dim caffîn, digon o gwsg.
2. Rydych chi'n haeddu rhywbeth neis ar ddiwedd pob dydd.
3. Cadwch gyswllt.
4. Cwsg!
5. Cofiwch y pethau sy'n eich cynhyrfu chi, a'r hyn a wnaiff helpu eich cynnal chi
6. Byddwch yn gadarnhaol.
7. Mae isio bod yn gall.

<https://www.rethink.org/news-views/2016/4/exam-stress>

Yn brin o arian?

A ydych yn methu gweithio dros yr haf i gynnal eich hun yn ariannol oherwydd anabled?



Mae gan y Brifysgol gronfa wrth gefn i helpu israddedigion 'cartref' llawn amser sydd yn y **flwyddyn gyntaf neu'r ail** ac sy'n methu cynnal eu hunain yn ariannol dros wyliau'r haf.

Bydd ffurflenni cais ar gyfer cronfa caledi'r haf ar gael o **fis Mai** gan yr Uned Cymorth Ariannol ar lawr cyntaf Neuadd Rathbone.

☎ 01248 383566 / 383637 ✉ cymorthariannol@bangor.ac.uk

RHAID cyflwyno ffurflenni erbyn **8 Mehefin 2018**

Cyllid Myfyrwyr 2018/19

Os ydych yn dychwelyd i'r Brifysgol y flwyddyn nesaf, mae angen i chi wneud cais am gyllid myfyrwyr ar gyfer y flwyddyn nesaf cyn gynted â phosibl. Mae sefydliadau Cyllid Myfyrwyr yn annog myfyrwyr i wneud cais am eu benthyciadau ffioedd dysgu a chynhaliaeth, grantiau a lwfansau ar-lein, cyn y dyddiadau cau a nodwyd. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn derbyn yr arian y mae gennych hawl iddo ar ddechrau tymor yr hydref 2018.

Gallwch lenwi ffurflen PR1 ar-lein neu ei lawr lwytho o'r gwefannau canlynol:

- Myfyrwyr sy'n dod o **Gymru**: www.studentfinancewales.co.uk
- Myfyrwyr sy'n dod o **Loegr**: www.gov.uk/apply-for-student-finance
- Myfyrwyr sy'n dod o'r **Alban**: www.saas.gov.uk
- Myfyrwyr sy'n dod o **Ogledd Iwerddon**: www.studentfinancenl.co.uk

Os hoffech fwy o wybodaeth am gyllid myfyrwyr, cysylltwch â'r Uned Cefnogaeth Ariannol. ✉ cymorthariannol@bangor.ac.uk neu ☎ 01248 383655 / 383637

Bwrsariaeth Gofalwyr

Ym Mhrifysgol Bangor, rydym yn rhoi pwyslais mawr ar ofalu am ein myfyrwyr a'u cefnogi. Mae'r Brifysgol yn ymwybodol y gallai gofalu fod â goblygiadau ariannol, gyda myfyrwyr yn cael costau teithio uwch, neu'n canfod na allent weithio'n rhan-amser mor rhwydd i ategu eu cyllid myfyrwyr.

I helpu i ysgafnhau ychydig o'r pryderon ariannol hyn, mae Prifysgol Bangor yn cynnig bwrsariaeth flynyddol i fyfyrwyr sy'n ofalwyr, o hyd at £1,000 o Gronfa Galedi'r Brifysgol.

Diffinnir gofalwr fel a ganlyn: *Gofalwr yw unrhyw un sy'n gofalu, yn ddi-dâl, am ffrind neu berthynas sydd, oherwydd salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu ddibyniaeth, yn methu ag ymdopi heb eu cefnogaeth - Carers Trust.*

(Sylwch y byddai'r dyletswyddau hyn yn ychwanegol at y cyfrifoldebau gofalu arferol fyddai gan riant dros blentyn dibynnol.)

Er mwyn gwneud cais, galwch heibio'r Uned Cymorth Ariannol, neu e-bostiwch i gael ffurflen gais. Anfonwch y ffurflen wedi'i llenwi yn ôl gyda thystiolaeth gan unigolyn proffesiynol, sy'n ymwybodol o sefyllfa'r teulu a'ch cyfrifoldeb gofalu chi. Os oeddech chi'n arfer derbyn Lwfans Gofalwyr hefyd, bydd arnom angen prawf gan yr Adran Waith a Phensiynau bod hwn wedi dod i ben bellach.

Os ydych chi'n ofalwyr sy'n derbyn cyflog am eich dyletswyddau gofalu, neu'n derbyn Lwfans Gofalwyr, mae'n ddrwg gennym orfod dweud nad ydych yn gymwys am y fwrsariaeth hon.

Bwrsariaethau Teithiau Maes

Mae ysgolion academaidd yn trefnu teithiau maes i gyfoethogi profiad dysgu israddedigion. Pwrpas y fwrsariaeth hon yw annog rhai i gymryd rhan mewn teithiau maes, ac i helpu'n arbennig y myfyrwyr hynny a allai, fel arall, gael eu heithrio oherwydd eu sefyllfa ariannol eu hunain.

Mae'r Bwrsariaethau Maes ar gael i israddedigion y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd, ac incwm cartref trethadwy myfyriwr sy'n pennu a ydynt yn gymwys ai peidio.

- Incwm cartref trethadwy o dan £40,000 = 40% oddi ar gost y daith
- Incwm cartref trethadwy rhwng £40,000 a £50,000 = 30% oddi ar gost y daith.

I wneud cais, e-bostiwch moneysupport@bangor.ac.uk am ffurflen gais. Dylid anfon neu e-bostio'r ffurflen wedi'i llenwi i'r Uned Cymorth Ariannol gyda llythyr gan yr Ysgol Academaidd yn cadarnhau eich bod yn mynd ar y daith.

Caiff yr arian ei dalu fel rheol wedyn yn uniongyrchol i'r Ysgol Academaidd ar ran y myfyriwr.

Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Myfyrwyr

Mae Tîm Cymorth y Myfyrwyr yn falch o allu cynnig gwasanaethau arbenigol i unrhyw fyfyrwr sydd wedi dioddef aflonyddwch, trais oherwydd rhyw neu droseddau casineb, gyda phenodiad Helen Munro yn Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Myfyrwyr. Mae Helen yn ymuno â thîm ar ôl treulio 10 mlynedd gydag Undeb y Myfyrwyr, ac mae hi wedi bod yn y swydd ers mis Tachwedd.

Yn ystod Hydref 2016, rhyddhaodd Universities UK adroddiad tasglu a fu'n ystyried trais ar sail rhyw, troseddau casineb ac aflonyddu ar gampws prifysgol ac un o argymhellion allweddol yr adroddiad oedd bod angen i brifysgolion ledled y Deyrnas Unedig ddatblygu ymatebion effeithiol i fynd i'r afael â phob math o aflonyddu. Mae Helen yn gallu rhoi cyngor arbenigol ac arweiniad i'r myfyrwyr hynny sydd wedi dioddef trwy aflonyddu ynghyd â chymorth parhaus a gwybodaeth am y gwahanol ddewisiadau sydd o ran adrodd a rhoi gwybod. Mae Helen yn gweithio'n agos gyda holl adrannau'r Brifysgol er mwyn sicrhau nad yw'r Brifysgol yn barod i oddef dim aflonyddu ar neb a dros y misoedd nesaf bydd hi'n datblygu hyfforddiant ar gyfer y staff er mwyn medru ymateb yn effeithiol i'r holl achosion.



Helen Munro

Chwi fyfyrwyr sy'n teimlo eich bod chi wedi eich effeithio gan ymddygiad sy'n annerbyniol neu'n niwsans o gwbl, fe allwch chi gysylltu â Helen yn uniongyrchol am gyngor. Mae ei swyddfa hi ar lawr cyntaf Rathbone ac fe allwch chi gysylltu â hi ☎ 01248 388021 neu ✉ h.munro@bangor.ac.uk

Gwasanaeth y Llyfrgell a'r Archifau

Mae Gwasanaeth y Llyfrgell a'r Archifau'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau yn benodol ar gyfer defnyddwyr sydd â PLSP (Cynllun Cefnogi Dysgu Personol). Mae gwasanaeth ar gael i'ch helpu chi gael gafael ar ddeunydd mewn fformat rhwydd. Gofynnwn am ddeunydd gan naill ai RNIB Bookshare neu'n syth gan y cyhoeddwr. Rhaid bod y Llyfrgell yn cadw copi print neu e-lyfr o'r testun cyn y medrwn wneud cais am fersiwn hwylus. Yn anffodus fedrwn ni ddim addo darparu popeth i chi bob amser. Rydym yn dibynnu ar y cyhoeddwr er mwyn darparu'r gwasanaeth hwn.

Gall y myfyrwyr gofrestru i ddefnyddio gwasanaeth rhannu llyfrau'r RNIB. Cewch fwy o wybodaeth ar eu gwefan nhw: <https://www.rnibbookshare.org/cms/>

Fel arall, os ydych chi am i'r llyfrgell ddod o hyd i gopi hygyrch, llenwch y ffurflen gais sydd ar ein gwefan: <https://www.bangor.ac.uk/library/help/specneeds.php.en>
Ers mis Medi 2017 rydym wedi llwyddo i ddod o hyd i fwy na 22 o eitemau ar gyfer myfyrwyr.

I gael rhagor o wybodaeth, help neu gyngor cysylltwch â'r tîm hygyrchedd:
lib.accessibility@bangor.ac.uk

Swyddfa Tai Myfyrwyr

Mae Swyddfa Tai Myfyrwyr wedi creu rhestr wirio ddefnyddiol gyda'r hanfodion o symud allan o'ch tŷ, i helpu sicrhau eich bod yn cael diwrnod didrafferth:

www.bangorstudentpad.co.uk/Local



Seremoni'r Arweinwyr Cyfoed

Cynhaliwyd Seremoni'r Arweinwyr Cyfoed yn ddiweddar i ddathlu'r holl waith caled y mae'r Arweinwyr Cyfoed yn ei wneud i helpu myfyrwyr newydd ymgartrefu ym Mangor. Roedd yno lawer iawn o guro dwylo a bloeddio pan gafodd yr Arweinwyr Cyfoed eu tystysgrifau ac fe aeth nifer dda o Frownis Bangor, ynghyd â chacennau eraill i lawr y lôn goch. Gyda'r nos cafodd 3 o wobrau arbennig eu cyflwyno.

Cyflwynwyd Gwobr yr Arweinydd Cyfoed Mwyaf Effeithiol i Natalie Evans, Myfyrwraig Nyrsio o Wrecsam sydd yn ei blwyddyn olaf, am ei ymrwymiad a'i dibynadwyedd, yn arbennig am y ffordd y bu'n helpu trefnu a datblygu'r cynllun yn ei hysgol.

Ben Minchell, myfyriwr sydd yn ei ail flwyddyn sy'n astudio'r Gwyddorau Biolegol, oedd enillydd Arweinydd Cyfoed y Flwyddyn. Cafodd y wobr honno ei rhoddi i gydnabod y gwaith rhagorol a wnaeth gyda myfyrwyr newydd gan helpu pobl drwy anawsterau personol a'u cyfeirio nhw at help effeithiol.

Fe gyflwynodd Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach Gogledd Cymru wobr arbennig hefyd. Cafodd y wobr ei chyflwyno i Kevin Larkin wedi ei farw. Bu'n astudio Seicoleg yma ym Mangor ac fe roddwyd y wobr iddo oherwydd y croeso cynnes a roddai i bob myfyriwr newydd yn ddiwahân. Derbyniodd Dr Tracey Lloyd o'r Ysgol Seicoleg y wobr ar ran teulu Kevin.



Derbyniodd Natalie Evans Wobr yr Arweinydd Cyfoed Mwyaf Effeithiol gan yr Athro Carol Tully.

Os oes gennych chi ddi-ddordeb gwirfoddoli fel Arweinydd Cyfoed ebostiwch ✉

peerquiding@bangor.ac.uk



Nicola Brown – Fy Siwrnai



Pan oeddwn i'n 17 oed, cefais fy nhrawiad cyntaf ac wrth imi fynd yn hŷn fe ddaethant yn fwy aml a thrwy hap a damwain cefais drawiad o flaen y nyrs. Fe fŷm i yn Ysbyty Gwynedd am 6 wythnos ac yno roedd Dr Bracewell yn ymweld â chlaf arall ac fe edrychodd ar fy CT a dweud, "Walton rŵan hyn!". Erbyn diwedd y diwrnod hwnnw, yr oeddwn yn Walton ac yno y bŷm i am fis arall. Cefais ddiagnosis AVM de ôl barwydol mawr. Cefais fy rhoi ar Phenytoin 450mg. 50/50 a chael a chael oedd hi a fyddwn i byw ai peidio. Cefais llawdriniaeth ym mis Rhagfyr 2007; tra oedden nhw'n fy mharatoi ar gyfer y llawdriniaeth fe gefais waedlif. Yn sgil y llawdriniaeth roedd Ffenomen Riddoch arna' i.

Ar ôl blynyddoedd lawer o gyfranogi yn ymchwil yr Athro Rafal, cefais fy nghyfareddu gan fyd niwroseicoleg. Graddiais o Fangor llynedd gyda gradd mewn seicoleg a bellach rwy'n gwneud MSc mewn Niwroseicoleg ac mae Dr Rudi Coetzer yn fy ngoruchwylio. Mae'n braf hefyd fod Dr Bracewell ymhlith y darlithwyr. Yn ddiweddar fe roddais sgwrs am fy siwrnai a'r anaf i'mhen yn y Coleg Meddygaeth Brenhinol yn Llundain.

Cymraeg iaith yw fy gyntaf ac ers imi ddod i Brifysgol Bangor, rwyf wedi wedi cael diagnosis o Dyslecsia, Dyspraxia, Dyscalculia a Syndrom Irlen (sensitifrwydd sgotopig). Yr wyf i wedi cael Cymorth Sgiliau Astudio Arbenigol 1-1 yn rheolaidd gan y Tîm Dyslecsia drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae eu cymorth nhw wedi bod yn amhrisiadwy. Cymerodd beth amser imi ddod o hyd i'r tiwtor iawn ac yr wyf bellach wedi bod gyda'r un tiwtor 1-1 ers tair blynedd. Mae fy sgiliau ysgrifennu wedi gwella ac rwy'n well am drefnu a chynllunio fy ngwaith a datblygu dealltwriaeth o sut medraf ganolbwyntio ar dasgau ac sut mae adolygu a sefyll arholiadau ac ati. Mae hyn oll wedi helpu rhoi hyder imi yn fy ngwaith academaidd. Rhyw ddiwrnod hoffwn i weithio gydag unigolion sydd wedi cael anaf i'r ymennydd a helpu eraill gyflawni eu nodau a'u breuddwydion.

Cofiwch gymeradwyo taflen amser eich gweithiwr cynnal

Bydd y darlithoedd yn dod i ben ddydd Gwener, 4 Mai. Cofiwch ymdrin â phob neges e-bost gan Randstad a defnyddio'r system Opus i ystyried unrhyw hawliadau am waith cefnogi sy'n ddyledus. Rydym yn gwybod y gall y cyfnod arholiadau fod yn amser prysur, ond bydd arnom angen prosesu tâl ar gyfer eich gweithiwr cefnogi cyn i bobl ddechrau mynd am adref ar gyfer y gwyliau haf.

Canolfan Asesu Bangor

Ysgoloriaeth Technoleg Gynorthwyol - Meddalwedd am ddim!

Yr holl feddalwedd sydd ei angen arnoch chi am ddim

- Cewch y dechnoleg gynorthwyol ddiweddaraf
- Mae hyfforddiant a chefnogaeth ar gael
- Mae'r cyfan am ddim
- Caiff pawb wneud cais



Mae chwech o gwmnïau technoleg gynorthwyol mwyaf blaenllaw'r Deyrnas Unedig wedi dod ynghyd i gynnig ysgoloriaethau technoleg gynorthwyol gan gynnwys meddalwedd a hyfforddiant am ddim.

Mae LexAble, TextHelp, MatchWare, Sonocent, Learning Labs a DnA yn gwahodd ceisiadau am ysgoloriaethau ac maen nhw'n gofyn i'r ymgeiswyr ddweud wrthynt pam y dylen nhw gael un. Caiff yr ysgoloriaethau eu rhoddi ar sail angerdd, creadigrwydd, teilyngdod ac angen yr ymgeisydd.

Bydd y rhai sydd yn derbyn ysgoloriaethau'n cael mynediad am ddim at feddalwedd Global AutoCorrect, Read and Write, MindView ac Audio Notetaker MindView a mynediad at Learning Labs am dair blynedd. Yn ogystal, bydd pob newydd-ddyfodiaid llwyddiannus yn cael chwe awr o hyfforddiant o bell gan Diversity and Ability.

Daw'r ymgeiswyr o **bedwar ban byd**, does dim angen i chi fod yn gymwys i gael DSA, a does dim rhaid bod anabledd cydnabyddedig arnoch i fod yn gymwys.

Am ragor o wybodaeth, ewch i <http://www.atscholarship.com/>

A fyddwch chi'n astudio y flwyddyn nesaf a heb wneud cais am LMA? Gallwn ni helpu!

Gallwn gefnogi unrhyw fyfyrwr cymwys ym Mhrifysgol Bangor gyda chais am LMA. Mae hyn yn cynnwys help i lenwi'r ffurflen gais, cysylltu â Chofnodion y Myfyrwyr ac atebion i'r rhan fwyaf o'ch cwestiynau chi ynghylch proses y LMA.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â ni ✉ asesiad@bangor.ac.uk neu ☎ 01248 383030 neu galwch heibio i'r dderbynfa ar Lawr Cyntaf Neuadd Rathbone (Gwasanaethau'r Myfyrwyr).

Graddio Gorffennaf 2018



Mae'r wefan graddio'n awr yn fyw yn: <http://www.bangor.ac.uk/graduation> ac mae'n cynnwys gwybodaeth am y seremonïau, beth i'w ddisgwyl, ble i fynd a beth i'w wneud.

Presenoldeb

Mae angen i'r holl fyfyrwyr sydd â hawl i ddod i'r Seremonïau Graddio roi gwybod i ni erbyn **1 Mehefin 2018** a fyddant yn dod i'r seremoni neu beidio. Dilynnwch y cyswllt i gofrestru [yma](#).

PWYSIG:

Os ydych yn teimlo y gallech gael anawsterau, yn cynnwys ciwio neu fynd i fyny i'r llwyfan, a fyddech cystal a gysylltu â ni yma yn y Gwasanaeth Anabledd,

✉ gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk, fel y gallwn wneud unrhyw drefniadau angenrheidiol.

Cwestiynau a Ofynnir yn Aml:

C: Faint o docynnau a ddyrennir imi?

A: Dyrennir dau docyn gwestai i bob darpar-raddedig sy'n dymuno dod i'r seremoni, a fydd yn costio £12 yr un. Gallwch archebon tocynnau ar-lein drwy 'MyBangor'.

C: A oes arnaf angen tocynnau ar gyfer Plant?

A: Rhaid i blant dan 3 oed (dim mwy na dau i bob myfyriwr) eistedd ar lin oedolyn ac nid ar sedd. Nid oes angen tocyn arnynt. Rhaid i blant 3 oed a hŷn gael tocyn pris llawn i westeion i gael mynd i'r seremoni. Os ydych yn dod â babi sy'n dal mewn pram neu goets fach i'r seremoni, a fyddech cystal â nodi hynny pan fyddwch yn prynu eich tocynnau. Gofynnir i chi a oes angen gwneud unrhyw drefniadau arbennig ar gyfer eich gwesteion. Ein cyngor yw bod plant yn gwyllo'r seremoni o Brif Ddarlithfa'r Celfyddydau, lle nad oes angen tocynnau.

C: Pa mor hir y mae'r Seremoni'n para?

A: Mae'r seremoni'n para am ryw awr a hanner.

C: Beth am y derbyniadau adrannol?

A: Mae'r rhan fwyaf o Ysgolion yn cynnal eu derbyniadau unigol eu hunain, naill ai cyn neu ar ôl y seremoni. Cewch wybodaeth am dderbyniad eich adran yn uniongyrchol trwy eich adran gartref.

C: Efallai caf anhawster i giwio neu fynd ar y llwyfan. Efo pwy dylwn i siarad am hyn?

A: Cysylltwch â'r Gwasanaeth Anableddau fel mater o flaenoriaeth, ☎ (01248) 383620 / 382032 neu ✉ gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

C: Mae fy ngwestai'n anabl, beth ddylwn i ei wneud?

A: Dylech roi nodyn ar y ffurflen gofrestru sydd ar y gwe-dudalennau ynglyn ag unrhyw anghenion arbennig a fo ar eich gwesteion.



GRADDIO ELENI?



● **Gwiriwch eich HEAR**

● **Cwblhewch y GCB**

ar Fy Hwb Cyflogadwyedd
my.bangor.ac.uk/cyflogadwyedd
erbyn 5yh, Dydd Llun, Mai 14^{eg}

Gwasanaeth
**Gyrfaedd a
Chyflogadwyedd**

**Careers &
Employability
Service**

my.bangor.ac.uk/cyflogadwyedd |
my.bangor.ac.uk/employability

cyflogadwyedd@bangor.ac.uk |
employability@bangor.ac.uk



@PBCyflogadwyedd
@BUemployability



GCB – Gwobr Cyflogadwyedd Bangor
BEA – Bangor Employability Award



/gyrfaeddbangor
/careersbangor

01248 382071
bangor.ac.uk

Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd



Careers & Employability Service



Cyflawni drwy Brofiad Gwaith
Achieve through Work Experience



Ydych chi'n dechrau eich trydedd flwyddyn ym mis Medi? Os felly, mae'n amser da i ddechrau meddwl am brofiad gwaith

- Ydych chi'n wynebu rhwystrau mewn perthynas ag anabledd?
- Oes gennych chi wahaniaeth dysgu penodol e.e. dyslecsia, dyspraxia, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD)?
- Gennych chi anhawster iechyd meddwl?

Hoffech chi gael help gyda dod o hyd i brofiad gwaith perthnasol er mwyn datblygu eich sgiliau cyflogadwyedd? Ydych chi'n 24 oed neu iau? Os felly, mae'r Cynghorwyr Project GO Wales yma i helpu.

Are you starting your 3rd year in September? If so, it's a good time to start thinking about work experience

- Do you meet with disability related barriers?
- Do you have a specific learning difference eg dyslexia, dyspraxia, ADHD?
- Do you have a mental health difficulty?

Would you like help finding relevant work experience to develop your employability skills? Are you aged 24 or under? If yes, then the GO Wales Project Advisors are here to help you.



Raine Williams
Gweinyddwraig Prosiect
Project Administrator

Lis Owen
Rheolwr Prosiect
Project Manager

Jo Mitchell
Swyddog Prosiect
Project Officer

01248 388159
gowales@bangor.ac.uk
www.gowales.co.uk
Neuadd Rathbone



Eisiau ymlacio?

Ymunwch â **GUIDE DOGS CYMRU** yn Pontio i gwrdd â'r cŵn ac ymlacio.



Ystafell Ymlacio gyda **Chŵn**

Er cof am **Charlie Nicholson**

DYDD GWENER MAI 4

2pm-4pm @

**UNDEB
BANGOR
PONTIO**

**CYFRANIAD
AM FYNEDIAD**



Ap Bysiau Arriva

Beth am roi cynnig ar ap Bysiau Arriva. Peidiwch ag oedi! Mae AM DDIM, ac mae ar gael ar ffonau iPhone ac Android gan eich cyflenwr apiau arferol.

Mae'n cynnwys nifer o bethau gwyh:

- Cynlluniwr teithiau
- Map byw gyda gwybodaeth mewn amser real.
- Amserlenni
- m-dicedi
- Diweddariadau am y Gwasanaethau



Am fwy o wybodaeth, ewch i <https://www.arrivabus.co.uk/travel-help-and-accessibility/arriva-bus-app/>

Mae gan Arriva rywbeth i helpu'r rheiny sydd yn cael trafferth mynd ar eu gwefan nhw.

Enw hwnnw yw **Recite Me**, mae'n cynnig:

- Cyfieithiadau i 103 o ieithoedd - ar gyfer pobl y mae Saesneg yn ail iaith iddyn nhw.
- Troi 'testun yn llais' - y cynnwys wedi ei leisio i rai sydd â nam ar eu golwg.
- Medru addasu lliwiau a meintiau'r testun - yn ddefnyddiol ar gyfer pobl sydd â nam ar y golwg a dyslecsia
- Gweld y testun yn unig a rwler ddarllen - yn ddefnyddiol ar gyfer pobl sydd â nam ar y golwg a dyslecsia

Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw clicio ar y **botwm 'hygyrchedd ac awdio'** ar frig unrhyw dudalen.



'Rough Guide to Accessible Britain' ar ei newydd wedd.

Mae'n cynnwys dros 150 o adolygiadau a syniadau gwych a hwylus am ddiwrnodau allan. Mae rhywbeth at ddant pawb yn y 'Rough Guide to Accessible Britain'. Mae'r Rough Guide yn ceisio ysbrydoli a chefnogi pobl a'u hanghenion amrywiol i fwynhau'r goreuon o blith atyniadau Prydain - beth bynnag yw eu hanableddau.



Mae'r Rough Guide to Accessible Britain ar ei newydd wedd yn berffaith ar gyfer cwsmeriaid y Cynllun Motability sydd am grwydro'r wlad, ac fe allwch ei lwytho i lawr neu ei ddarllen ar-lein.

Mae'r Rough Guide yn ei 10fed flwyddyn bellach, ac mae'n wych i rywun sydd ag anghenion hygyrchedd sy'n dymuno cynllunio taith ac ati a bellach mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth i ymwelwyr sydd â chyflyrau mwy cudd megis awtistiaeth neu salwch meddwl. Mae pob lleoliad sydd yn y Rough Guide wedi cael ei adolygu gan dîm o ysgrifenydd, sydd naill ai ag anableddau eu hunain neu sydd wedi ymweld â'r lleoliad gyda ffrind anabl neu un o'r teulu.

Mae'r Rough Guide yn rhoi cyngor clir a defnyddiol er mwyn rhoi sylw i'r diwrnodau allan gorau sydd o ran hwylustod a hygyrchedd i bobl o bob gallu, gan gynnwys amgueddfeydd ac orielau celf, parciau bywyd gwyllt a gerddi.

Lawrlwythwch y Guide am ddim

https://www.motability.co.uk/rough_guide_to_accessible_britain.pdf

Gwasanaethau Myfyrwyr

Student Services



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

- Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd
- Sgiliau Astudio
- Cymorth Myfyrwyr
 - Arweinwyr Cyfoed
 - Tai Myfyrwyr
 - Cymorth Ariannol
 - Iechyd Myfyrwyr
 - Newid/Gadael Eich Cwrs
- Gwasanaethau Anabledd
 - Canolfan Asesu
 - Tîm Anabledd
 - Tîm Dyslecsia
 - Cynghorwyr Iechyd Meddwl
- Cynghori Myfyrwyr
- Darpariaeth Ffydd

- Careers and Employability
- Study Skills
- Student Support
 - Peer Guiding
 - Student Housing
 - Money Support
 - Student Health
 - Changing/Leaving Your Course
- Disability Services
 - Assessment Centre
 - Disability Team
 - Dyslexia Team
 - Mental Health Advisers
- Counselling Service
- Faith Provision

www.bangor.ac.uk/student-services
gwasanaethaumyfywrwyr@bangor.ac.uk
studentservices@bangor.ac.uk
01248 382024
Neuadd Rathbone, College Road



Ein Manylion Cyswllt

Pennaeth Gwasanaethau Anabledd

Carolyn Donaldson-Hughes,

✉ gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

Rheolwr Tîm Dyslecsia

Jane Jones

✉ pss204@bangor.ac.uk

Uwch Gynghorwr Anabledd

Esther Griffiths

Cynghorwyr Anabledd Myfyrwyr

Ruth Coppell / Steph Horne

✉ cynghorwrabledd@bangor.ac.uk

Cynghorwyr Iechyd Meddwl

Fiona Rickard / Cheryl Parkinson /

Fiona Hill

✉ cynghorwriechydmeddwl@bangor.ac.uk

Cynghorwyr ADP

Andrea Reynolds / Rafaela Williams

✉ cynghorwrdyslecsia@bangor.ac.uk

Dylan Griffiths

Rheolwr Gwasanaeth Asesu

Asesu Anghenion Astudio

✉ canolfan_access@bangor.ac.uk

Asesu Diagnostic

✉ assessment@bangor.ac.uk

Cydlynnydd Cymorth Anfeddygol

Christine Roberts

✉ gwaithefnogi@bangor.ac.uk

Gweinyddwr

Tracey Morris

✉ gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

Cynorthwydd Gweinyddol (gorchwyll
mamolaeth)

Charu Dada

✉ gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

☎ Charu neu Tracey ar 01248 383620 / 382032 neu ✉ gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk i wneud apwyntiad.

Am fanylion am y gwasanaethau a ddarperir gan y Tîm Anabledd ewch at

<http://www.bangor.ac.uk/gwasanaethaumyfyrwyr/abledd>

I wneud apwyntiad gyda'r Gwasanaeth Cynghori, ☎ Helen ar 01248 388520 neu

✉ cynghori@bangor.ac.uk

Cymeradwywyd gan y Corff Achredu Matrics

